# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lle a Chorfforaethol

Dyddiad: 22 Mawrth 2021

Amser: 4.00 pm

Yn bresennol: Y Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), G Berry, M Whitcutt, I Hayat, J Richards, ac C Ferris ac n

Hefyd yn bresennol: Paul Jones (Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas), Matthew Cridland (Rheolwr Safonau Masnach), Joanne Gossage (Rheolwr Gwasanaethau Gwyrdd) a Neil Barnett (Swyddog Cynghori ar Graffu)

1 **Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr M Al-Nuaimi, M Kellaway ac M Linton

2 **Datgan Buddiannau**

Dim.

3 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 yn gofnod gwir a chywir.

4 **Gorfodi Cyfyngiadau Busnes COVID**

Presennol:
- Mathew Cridland (Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddiol - Safonau Masnachol)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddiol drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Roedd hyn yn cynnwys Crynodeb o Allbynnau'r Adran, a nododd nifer yr archwiliadau, yr hysbysiadau a gyhoeddwyd a chyfanswm nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod Safonau Masnach a Thrwyddedu wedi rhoi cyngor i fusnesau ar dros 2,000 o achlysuron ers diwedd mis Mawrth 2020, wedi cwblhau 3,000 o archwiliadau ac wedi asesu cydymffurfiaeth ar 4,000 o achlysuron. Roedd 74% o'r archwiliadau hyn yn cydymffurfio a chydymffurfiodd 16% tra bod swyddogion yn y safle, yn dilyn cyngor. Roedd angen ymchwilio ymhellach i 10%. Rhoddwyd 45 o hysbysiadau gwella safleoedd ynghyd â 7 hysbysiad cau a gofynnwyd am 3 adolygiad trwydded.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y gwaith a wnaed yn ystod y cyfyngiadau clo cychwynnol pan orchmynnwyd llawer o fusnesau i gau a dim ond busnesau hanfodol oedd yn parhau i fod ar agor i gwsmeriaid. Roedd yn rhaid i'r rhai a ganiatawyd i aros ar agor sicrhau bod popeth yn ddiogel drwy reoli ciwiau a niferoedd, sicrhau cadw pellter cymdeithasol a gosod arwyddion hylendid ac ati. Cysylltodd y timau perthnasol â phob busnes unigol ar eu cronfa ddata, gan sicrhau eu bod yn gwybod beth oedd yn ddisgwyliedig

*This document is available in welsh / Mae's ffurflen hon ar gael yn Gymraeg*

ganddynt a bod llinell ar ddyletswydd wedi'i sefydlu'n gyflym i roi cyngor. Cynhaliwyd patrolau hefyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.  Y mathau o faterion a gododd oedd adeiladau megis tafarndai lle'r oedd gerddi cwrw agored yn cael eu defnyddio, yr oedd y perchennog yn credu eu bod yn ddiogel, ond a oedd, mewn gwirionedd, yn torri'r rheoliadau ar y pryd. Hefyd trinwyr gwallt a barbwyr yn gweithredu yng nghartrefi pobl.

Wrth gynnal y gwiriadau hyn, bu cynnydd hefyd mewn sgamiau a materion safon masnachu i ddelio â hwy megis codi prisiau am nwyddau a gwasanaethau, gwrthod ad-daliadau am wyliau a ganslwyd ac offer amddiffynnol personol a diheintydd dwylo anniogel.

Wrth i'r gyfradd achosion leihau yn y gwanwyn, cynhaliodd y staff wiriadau ar archfarchnadoedd i sicrhau bod yr arwyddion, y cyfarwyddiadau i symud o amgylch y siopau ac ati yn ddigonol. Cysylltwyd â'r holl Reolwyr siopau a rhoi cyngor iddynt fel eu bod yn gwybod yr hyn oedd yn ddisgwyliedig ganddynt yn y cyswllt hwn. Gweithiodd y Gwasanaeth yn agos gyda'r Heddlu yn ystod y pandemig a hefyd gyda Phriffyrdd Gwasanaethau'r Ddinas er mwyn trefnu mannau bwyta awyr agored yng Nghanol y Ddinas i alluogi cwsmeriaid i gyrchu gwasanaethau yn ddiogel ac yn unol â chyfyngiadau a rheoliadau Covid-19. Ymchwiliwyd yn drylwyr i anwybyddu amlwg neu ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau gan 2 safle trwyddedig yng Nghanol y Ddinas ac ataliwyd eu trwyddedau.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio eu bod yn defnyddio' dull YEAG tuag at orfodi, sef 'Ymgysylltu, Esbonio, ac Annog', ac fel dewis olaf, 'Gorfodi'. Dangosodd y ffigurau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad fod y lefelau cydymffurfio yn uchel drwy ymgysylltu ac annog, a bod yr angen am orfodi wedyn yn isel iawn.
Roedd yr holl staff wedi gweithio'n eithriadol o galed o dan yr amgylchiadau anodd hyn. Roedd deddfwriaeth yn newid yn wythnosol ac roedd yr angen i drosglwyddo'r wybodaeth hon i fusnesau ac unigolion mewn modd amserol yn hollbwysig a chanmolodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio ei staff, gan ddweud ei fod yn credu bod eu hymdrech a'u hymroddiad wedi gwneud Casnewydd yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo yn ystod y pandemig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio am ei adroddiad llawn gwybodaeth ac ar ran y Pwyllgor, gofynnodd i'w gwerthfawrogiad gael ei anfon at yr holl staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y pandemig.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Beth oedd y tebygolrwydd y byddai unrhyw ddirwyon yn cael eu talu a sut y byddai hyn yn cael ei orfodi?

  Dwedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y byddai'n rhaid talu pob dirwy ond eu bod hefyd yn ceisio bod yn gyfrifol ac yn deg. Roedd y taliad yn ddyledus o fewn 28 diwrnod neu fe'i cynyddid i erlyniad am beidio â thalu. Roedd rhai busnesau a oedd wedi cael trafferth talu'r dirwyon wedi cyflwyno sylwadau ac roedd y rhain yn cael eu hystyried ac er enghraifft, cynllun talu yn cael ei sefydlu. Fel Awdurdod, byddem am sefyll yn gadarn o ran talu dirwyon, ond yn anelu at osgoi erlyniad am beidio â thalu lle bynnag y bo modd.

- Gofynnodd aelod pa fath o fusnesau oedd yn gyfrifol am y  ffigurau diffyg cydymffurfio?

  Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddiol fod dolen i'r  dadansoddiadau gwirioneddol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Yn ystod yr hydref yn benodol, roedd tafarndai a chlybiau yn cael problemau o ran cydymffurfio ac felly'n derbyn Hysbysiadau Gwella. Roedd y Rheolwr wedi mynychu archwiliadau safle gyda

swyddogion ac yn cydnabod ei bod yn anodd i Drwyddedigion. Er enghraifft, pe bai pobl yn dweud celwydd am niferoedd yn eu haelwydydd, swigod aelwyd ac ati, roedd yn anodd herio a gwrth-ddweud pobl. Yn yr un modd, roedd y mater o wisgo masg mewn archfarchnadoedd yn heriol gan fod staff yn pryderu y byddent yn plismona'r gofyniad hwn eu hunain. Yn dilyn cyfarfodydd gyda Rheolwyr yr Archfarchnadoedd, cytunwyd y byddai'r staff ond yn atgoffa pobl o'r polisi yn hytrach na'u herio am beidio â chydymffurfio. Roedd deddfwriaeth bellach ar waith fel rhan o systemau gweithio’n ddiogel ac roedd masgiau'n orfodol oni bai bod eithriad ar sail feddygol.

- Gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa tra yn y cyfyngiadau clo presennol

  Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod y gwerthuso'n mynd rhagddo a bod cymorth a chyngor yn cael eu rhoi yn barod ar gyfer ailagor. Byddai'r Swyddogion Cydymffurfio yn parhau yn eu swyddi tan fis Mehefin ac o bosibl yn cael eu hymestyn tan fis Medi. Roedd y cyfyngiadau clo wedi rhoi cyfle i fynd i'r afael â gwaith risg uchel arall fel ymchwiliadau tybaco anghyfreithlon ac wrth gwrs roedd y gwaith arferol o ddydd i ddydd wedi parhau law yn llaw â hyn

5 **Teithio Llesol**

Mynychwyr:
- Joanne Gossage (Rheolwr Gwasanaeth - Amgylchedd a Hamdden)
- Leah Young (Swyddog Prosiectau Teithio Llesol)
- Luke Stacey – Swyddog Datblygu Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Paul Jones - Pennaeth Gwasanaethau’r Ddinas

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth ac aelodau'r Tîm drosolwg i'r Pwyllgor o'r Cynllun Teithio Llesol, gan dynnu sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Gosododd y brif Ddeddf nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdod lleol i hwyluso teithio llesol. Roedd hyn yn bennaf drwy greu, uwchraddio, mapio a hyrwyddo'r llwybrau a'r gweithgarwch yn gyffredinol er mwyn gallu nodi'r cynlluniau yr oedd y Cyngor am eu datblygu.

Dangoswyd ffilm animeiddio fer i'r Pwyllgor a eglurodd y gwaith a wnaed gan yr adran, a rhoddodd hwn drosolwg sylfaenol o gynigion Teithio Llesol.
Fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, roedd yr Adran wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r llwybrau cerdded a beicio heb fawr o darfu o amgylch y ddinas ar ôl eu cwblhau. Nid yn unig y byddai'r llwybrau'n well, yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch i bawb, ond hefyd byddent yn cyflymu amser teithio. Drwy adeiladu teithio llesol i mewn i deithiau bob dydd, byddai'n gwella iechyd corfforol, yn cefnogi lles meddyliol, yn helpu'r amgylchedd ac yn gwella'r gymuned leol a'r economi.

Roedd yr Adran wedi ymchwilio i ddichonoldeb a hygyrchedd llwybrau.
Bu nifer o ddigwyddiadau ymgynghori dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd y cyntaf o'r rhain yn 2015 pan nodwyd y rhwydwaith llwybrau presennol a'r ail yn 2017, lle nodwyd y map rhwydwaith integredig ar gyfer y llwybrau arfaethedig. O ganlyniad i'r ymgynghoriadau hyn, roedd y cyhoedd wedi awgrymu lle roeddent am gael llwybrau ac yna ymchwiliwyd i ddichonoldeb y llwybrau awgrymedig hynny. Dangoswyd sleidiau'n nodi’r llwybrau teithio presennol ac yn awgrymu rhwydweithiau beicio integredig. Ers 2015 roedd rhai llwybrau wedi'u cwblhau a byddai'r map yn cael ei ddiweddaru fel rhan o'r Adolygiad Map Rhwydwaith sydd ar y gweill.

Fel rhan o ymgynghoriad Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, roedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymgysylltu â phartneriaid, y cyhoedd, pobl â nodweddion gwarchodedig a phlant i annog mwy o bobl i gerdded a beicio. Yn ystod y cam cychwynnol (Chwefror / Mawrth 2021)

ceisiwyd adborth gan yr holl randdeiliaid a'r cyhoedd ar y rhwystrau a oedd yn cadw pobl rhag cerdded a beicio yn eu hardal. Byddai drafft cyntaf o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Casnewydd yn cael ei baratoi yn seiliedig ar yr adborth hwn. Yna, byddai'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol cymeradwy yn mynd at Lywodraeth Cymru yn yr hydref 2021 er mwyn ymgynghori'n statudol arno a throsglwyddir yr MRhTLl terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 31/12/2021.

Dangoswyd fideo byr yn hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd ar gyfer y prosiectau, y llwybrau presennol a pha welliannau y gellid eu gwneud. Hysbyswyd y Pwyllgor ar faint o ymwelwyr, cyfraniadau, sylwadau a chytundebau a wnaed.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Soniodd aelod yn gadarnhaol am y goleuadau ar hyd llwybr troed Coed Melyn a gofynnodd am ddarparu biniau gwastraff ychwanegol ar gyfer baw cŵn.

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaeth mai nodwedd amlwg allweddol y llwybr hwnnw ar hyn o bryd oedd gosod y goleuadau ac yn amlwg yn ystod misoedd y gaeaf yn cymudo yn oriau mân neu gyda'r hwyr, roedd yn anochel y byddai ychydig yn dywyll ac felly roedd darparu goleuadau yn ffordd bwysig iawn o annog defnyddwyr i ddefnyddio'r llwybrau hynny. Bu'n rhaid iddynt hefyd fod yn ystyriol o ecoleg nosol yr ardal honno. Roedd angen i'r goleuadau fod yn ddigon isel, yn ddigon llachar i oleuo'r llwybr, ond heb ledaenu'r golau i'r ardal gyfagos nac effeithio ar ystlumod, moch daear a chreaduriaid nosol eraill. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas fod yr holl finiau gwastraff yn addas ar gyfer gwastraff cymysg, gan gynnwys gwastraff cŵn ac efallai fod rhywfaint o werth mewn hyrwyddo ac atgyfnerthu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd.

- Gofynnodd aelod sut yr oeddem yn perfformio ar hyn o bryd o ran ymatebion i'r ymgynghoriad a sut y gallai'r cyhoedd gymryd rhan yn ymateb.

  Ymatebodd y Tîm eu bod hyd yma wedi derbyn 2,383 o ymwelwyr i'r wefan, a chyfanswm o 2,167 o sylwadau. O'i gymharu, yn 2000 dim ond 69 o sylwadau a gafwyd. Roedd gwasgariad daearyddol i'r ymatebion hefyd, tystiolaeth bod y bobl a oedd yn defnyddio'r llwybrau llesol a oedd wedi'u rhoi ar waith yn yr ardaloedd hynny yn awyddus i ddefnyddio teithio llesol fel dull gwahanol o deithio, megis ward Tŷ-du. Roedd tudalen Teithio Llesol bwrpasol ar wefan y Cyngor ac roedd yr ymgynghoriad yn cael ei wthio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, y Cyngor Ieuenctid ac roedd mwy o ymgysylltu'n cael ei wneud gydag ysgolion. Unwaith y byddai'r data a dderbyniwyd wedi'i ddadansoddi, byddai drafft cyntaf y map rhwydwaith yn cael ei gynhyrchu ac yna'n cael ei anfon yn ôl allan i ymgynghori'n gyhoeddus arno.

- Dywedodd aelod ei bod yn bwysig hyrwyddo'r llwybrau'n helaeth, y llwybrau troed a'r mannau agored ledled y Ddinas fel y gallai pobl eu defnyddio a hyrwyddo teithio llesol. Awgrymodd o bosibl y gellid hyrwyddo teithiau tywys o amgylch yr ardaloedd hyn gan fod faint o waith a oedd wedi mynd i mewn i'r cynlluniau hyn yn haeddu cael ei ddefnyddio gan gynifer o bobl â phosibl.

  Dwedodd y Swyddog Prosiect, er ein bod wedi bod yn gweithio'n galed i gynyddu nifer y llwybrau cerdded a beicio ar draws y ddinas, ein bod yn gwybod bod mwy yr oedd angen i ni ei wneud i wella'r seilwaith. Dyma lle daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus yn effeithiol. Roedd angen i gynifer o bobl â phosibl ddweud eu dweud - trigolion lleol, cyflogwyr ac ysgolion, grwpiau cerdded a beicio a grwpiau cymunedol. Byddai hyn yn ein galluogi i wybod pa lwybrau newydd y gellid eu hychwanegu, a

fyddai'n galluogi mwy o deithiau ar feic neu ar droed.  Y mwyaf o ymatebion a gawsom, gorau oll y gellid adlewyrchu anghenion y gymuned gyfan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm am eu cyflwyniad a'u llongyfarch ar eu gwaith a wnaed hyd yma.

6 **Adroddiadau'r Ymgynghorydd Craffu**

Mynychwyr:
- Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu)

**a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a dwedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

**Dydd Llun 7 Mehefin 2021 am 4pm**, eitemau'r agenda;
- Adolygiad Diwedd Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2021-22 ar gyfer;
  - Y Gyfraith a Rheoleiddio
  - Pobl a Newid Busnes

- Blaenraglen Waith Flynyddol 2021-22, Fersiwn Ddrafft

**Dydd Llun 21 Mehefin 2021 am 4pm**, eitemau'r agenda;
- Adolygiad Diwedd Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2021-22
  - Gwasanaethau'r Ddinas
  - Cyllid
  - Adfywio, Buddsoddi a Thai

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45pm